



5-10 munud

## Amcan a Ffocws Cerddorol

Chwarae gyda seiniau a chreu seiniau; datblygu geirfa i ddisgrifio sain

## Offerynnau

Oes – unrhyw offerynnau sydd ar gael yn eich ysgol

## Hygyrchedd

Mae'r cynllun gwers yma yn addas i ddisgyblion sydd ag anawsterau clyw.

# 1. Gweithgaredd i Gynhesu

## Dysgu am Offerynnau

Rhowch eich offerynnau cerddorol mewn twmpath o flaen eich dosbarth.

Dewiswch blentyn i godi un o'r offerynnau ac edrych arno gyda phawb. Gofynnwch i'r plentyn:

- Sut mae chwarae'r offeryn cerddorol yma?
- Oes mwy nag un ffordd o chwarae'r offeryn yma?
- Sut mae'n gwneud sŵn?
- Ydyn ni'n gallu gwneud y sŵn yn uwch neu'n is?
- Allan o beth mae'r offeryn wedi cael ei wneud?
- Beth ydy enw'r offeryn? (Enw Cymraeg ac arwyddo)

Ewch drwy'r ymarfer yma gydag ychydig o offerynnau gwahanol.

**Awgrym:** Mae arwyddion offerynnau yn syml iawn – sef esgus eich bod yn chwarae'r offeryn! Efallai eich bod eisiau atgyfnerthu'r enw drwy sillafu'r llythyren gyntaf gyda bys cyn y prif arwydd, er enghraifft 'T – Tambwrin', 'D – Drwm' Defnyddiwch siart sillafu gyda bysedd BSL sydd ar y dudalen olaf.





10 munud

## 2. Sonic Explorers

### Gardd/Coedwig Law



Gwylwch Bennod 1 *Sonic Explorers* gyda'ch gilydd. Gofynnwch i'r plant ddisgrifio'r seiniau roedden nhw'n gallu eu gweld/clywed yn y fideo. Er enghraifft:

- Ffyn yn *taro*
- Dŵr yn *sblasio*
- Aderyn yn *canu*
- Crys yn *fflapio*
- Glaw yn *pitran-patran*
- Neidr yn *ratlo*
- Hadau'n *ysgwyd*

Os nad ydych chi'n siŵr o'r arwyddion ar gyfer rhain, gallwch eu gweld yng ngeiriadur fideo BSL [www.signbsl.com](http://www.signbsl.com).



Gofynnwch gwestiynau i'ch dosbarth am y fideo, fel:

- Ydych chi erioed wedi gweld mwnci udo? Allwch chi wneud sŵn mwnci udo?
- Beth ydy twcan? Allwch chi wneud sŵn fflapio?
- Ydych chi erioed wedi clywed y glaw mewn coedwig law?

Bydd y cwestiynau hyn yn helpu'r plant i ddeall y byd ehangach. Drwy'r gweithgaredd hwn byddan nhw'n gallu adnabod a dynwared amrywiaeth o seiniau o amgylcheddau cyfarwydd ac anghyfarwydd.



 20 munud

## 3. Prif Weithgaredd

### Cerddorfa Eitemau

Dewch o hyd i eitemau o amgylch eich ysgol sy'n gwneud sŵn tebyg i'r eitemau rydych chi newydd fod yn eu trafod. Efallai byddan nhw'n cynnwys:

- Bagiau plastig/papur (siffrwd)
- Tywallt dŵr rhwng cynwysyddion (sblasio)
- Potiau a sosbenni (clecian)
- Brigau (taro/clicio)
- Cynfas ffabrig (fflapio)
- Blwch llawn gleiniau (ysgwyd)

Gofynnwch i'r plant 'Allwch chi ddod o hyd i eitem sy'n swnio fel...':

- Glaw yn pitran-patran?
- Ffynnon ddŵr yn sblasio?
- Adenydd aderyn yn fflapio?
- Mwnci'n udo? (Efallai y bydd y plant eisiau defnyddio eu lleisiau ar gyfer hyn)
- Neidr ruglo yn ratlo?

Nawr gwyliwch y fideo eto, gan gyd-chwarae y tro hwn ac ail-greu rhai o'r seiniau drwy ddefnyddio eich eitemau.

## 4. Diwedd y Wers

### Taflu'r Bêl

Gofynnwch i'ch dosbarth eistedd neu sefyll mewn cylch.

Rhowch bêl feddal i blentyn, a fydd yn rhannu'n gyflym un peth a ddysgodd yn y wers heddiw, yna'n taflu'r bêl i rywun arall yn y cylch.



Os bydd disgybl yn nerfus, rhowch yr hawl iddo ddweud 'pasio' cyn dod yn ôl ato yn nes ymlaen.

 5 munud

Cysylltiadau â'r  
Cwricwlwm

Cymraeg

# The British fingerspelling alphabet



[www.ndcs.org.uk](http://www.ndcs.org.uk)

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales no. 1032023 and in Scotland no. SC004377.  
© National Deaf Children's Society October 2017 | 013346